Gorffennaf 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Canfyddiadau ein Galwad am Dystiolaeth ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru a wnaeth y gwaith yn cynnwys Nick Selwyn, Emily Owen, Gareth Jones a Duncan Mackenzie, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth
Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg,
a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Adroddiad cryno

1.1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau ym maes llywodraeth leol. Mae'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar un mater penodol neu un maes polisi, gan adolygu sut y mae cyrff cyhoeddus drwy Gymru yn perfformio ac yn defnyddio'u hadnoddau yn hynny o beth. Ymgynghorodd yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ei raglen o astudiaethau ym maes llywodraeth leol ym mis Rhagfyr 2015, gan fabwysiadu rhaglen arfaethedig dair blynedd – Arddangosyn 1. Mae'r tair astudiaeth a ddewiswyd ar gyfer 2018-19 yn canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno'n ddiweddar.Purpose of the call for evidence

Arddangosyn 1: Rhaglen o astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol rhwng 2016-17 a 2018-19

| 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw: Gwasanaethau digartrefedd | Y Gronfa Gofal Canolraddol | Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol |
| Gwasanaethau anabledd dysgu awdurdodau lleol – comisiynu strategol | Defnyddio data'n effeithiol | Gwerth am arian o wasanaethau cynllunio |
| Gwella llesiant drwy addasiadau i dai | Pa mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi gwasanaethau i gymunedau gwledig | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Diben yr alwad am dystiolaeth

2 Wrth sefydlu ei raglen ym mis Mawrth 2016, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybod i awdurdodau lleol ei fod yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith i gasglu tystiolaeth er mwyn rhoi ffocws i'w waith, ond hefyd er mwyn barnu pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn perfformio wrth gynnal yr adolygiadau hyn yn 2018-19. Wrth alw am dystiolaeth, gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol am ymatebion i gyfres o gwestiynau ynghylch y canlynol:

a dulliau presennol o weithio;

b y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth a pholisi; a

c sut y mae disgwyl i'r rhain ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â gwella'r gwasanaethau hynny.

3 Byddwn yn cynnal gwaith ychwanegol i ddatblygu syniadau a themâu ar gyfer yr astudiaeth yn ystod 2018-19. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y broses hon ac yn rhan o'n sylfaen dystiolaeth, y byddwn yn cynhyrchu ein prosiect byr oddi wrthi sy'n amlinellu cwmpas a chylch gorchwyl yr astudiaeth. Byddwn yn profi cynnydd gan gyrff cyhoeddus o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr alwad am dystiolaeth.

# Adroddiad manwl

## Y canfyddiadau o'n galwad am dystiolaeth ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y 'Ddeddf') er mwyn diwygio a symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y Ddeddf yn datblygu ar y Papur Gwyn, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, a alwai am foderneiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â rhoi gofal a chymorth. Roedd y Ddeddf yn cyflwyno dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill, ac yn berthnasol i oedolion, plant a'u gofalwyr. Daeth y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016.

1.2 Yn ganolog i'r Ddeddf y mae'r cysyniad o lesiant, ac o dan y Ddeddf mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd â llesiant gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio llesiant drwy wyth elfen gyffredin sy'n berthnasol i bawb o bob oed. Dyma'r rhain:

- a llesiant corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- b amddiffyn rhag cam-driniaeth ac esgeulustod;
- c addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- ch perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- d cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- dd sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- e llesiant cymdeithasol ac economaidd; ac
- f addasrwydd llety preswyl.

1.3 Yn 2018-19, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth genedlaethol yn edrych ar sut y mae awdurdodau a'u partneriaid yn rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar waith. Disgwyliwn yn y bydd yr astudiaeth arfaethedig yn 2018-19 yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan helpu i ganfod cyfleoedd i wella'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli a

darparu gwasanaethau.

1.4 Roedd ein galwad am dystiolaeth yn casglu gwybodaeth gan y partïon perthnasol am eu dulliau presennol o weithio; y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi; a sut y mae disgwyl i'r rhain ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir i'r rheini y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt, ynghyd â gwella canlyniadau i'r bobl hynny. Mae ein prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn i'w gweld isod. Byddwn yn barnu'r cynnydd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, ynghyd â'r risgiau a'r heriau, wrth wneud ein gwaith adolygu yn 2018-19.

## Mae partneriaethau sydd wedi'u sefydlu ers tro yn helpu i roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pob partner yn cyfrannu er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau sydd yn y Ddeddf

1.5 Mae cyrff cyhoeddus gan mwyaf yn gadarnhaol ynghylch y trefniadau gweithio presennol ac yn credu y bydd gofynion y Ddeddf yn ddatblygiad ar bartneriaethau sydd ar y cyfan yn gryf ledled Cymru. Yn benodol, gwelir bod partneriaid statudol yn cyfrannu mwy a bod hynny'n dod yn gynyddol effeithiol. Bydd hynny'n golygu bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwaith partneriaeth newydd ar dir cadarn.

1.6 Fodd bynnag, ac ystyried ei bod yn gymharol gynnar yn y broses o roi'r Ddeddf ar waith, mae cyrff cyhoeddus yn credu bod troi ymrwymiadau strategol y partneriaethau yn fodelau integredig ar gyfer darparu gwasanaethau, ynghyd â sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i wneud hyn, yn heriau sylweddol. Mae partneriaid yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith yn y dyfodol hefyd i integreiddio gwasanaethau'n well

ar draws y maes iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Maent yn cydnabod y bydd cyfathrebu'n helaeth ac yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall prif negeseuon y Ddeddf yn flaenoriaeth barhaus.

1.7 Cyfeiriodd y rheini a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth at ragor o feysydd lle byddai rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn fuddiol er mwyn cryfhau'r gofynion a'r trefniadau newydd sy'n deillio o'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

a cymorth technegol a chymorth gyda pholisi arbenigol – er enghraifft datblygu cronfeydd cyfun, cymorth ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a lledaenu gwybodaeth am bolisïau a materion cyfreithiol ledled Cymru pan fydd y rheini'n gyffredin i bob corff cyhoeddus;

b ar lefel mwy ymarferol, dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen creu rheolwr prosiect penodol er mwyn goruchwylio'r cytundeb i gyfuno cyllidebau a rhoi sylw i bryderon am y ffordd orau o reoli gostyngiadau yn y grantiau integreiddio a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi'r Ddeddf ar waith; ac

c yn olaf, dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy o waith ar bolisi a chanllawiau er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cyd-fynd â'r gwahanol feysydd sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys integreiddio gofal cymdeithasol a materion tai; y cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a chynlluniau i drechu tlodi fel Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

## Cymysg yw barn cyrff cyhoeddus am ba mor effeithiol yw'r hyfforddiant i helpu i roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith, ac maent yn dweud bod angen gwneud rhagor o waith yn hyn o beth

1.8 Mae helpu pobl i wneud y gwaith gorau posibl yn hollbwysig er mwyn gwella llesiant pobl sy'n agored i niwed a'r rheini sy'n eirioli drostynt. Wrth ddatblygu a chyflwyno'r Ddeddf, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rhoi hyfforddiant digonol ac effeithiol i'r holl sefydliadau sy'n gyfrifol am droi'r uchelgeisiau yn y ddeddfwriaeth yn realiti. Drwyddi draw, roedd cyrff cyhoeddus yn gadarnhaol wrth sôn am y cynnydd da sy'n cael ei wneud wrth ddarparu rhaglen hyfforddiant genedlaethol Cyngor Gofal Cymru ar y Ddeddf. Serch hynny, roedd y ffaith bod yr hyfforddiant wedi'i roi'n hwyr, ar yr un pryd ag yr oedd y Ddeddf i'w rhoi ar waith, yn her.

1.9 Dywedodd ymatebwyr hefyd fod ganddynt rai pryderon am sut y mae'r hyfforddiant yn cael ei roi. Er enghraifft, roedd pryder am y canlynol:

a natur arbenigol rhywfaint o'r hyfforddiant, yn enwedig pan fydd angen cymhwyster i wneud rôl benodol o dan y Ddeddf, neu pan fydd angen cydymffurfio â chymwysterau cydnabyddedig (e.e. Rhaglen Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru). Dywedodd ymatebwyr fod gormod o lawer o bobl yn cael hyfforddiant ar hyn o bryd ac nad oedd digon o lefydd ar gael i ateb y galw.

b mae cyflwyno hyfforddiant craidd yn ddrud yn sgil amrediad yr asiantau a nifer y bobl y mae angen hyfforddiant arnynt. Teimlai nifer o'r rheini a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth y byddai wedi bod yn well targedu staff pwysig, fel uwch ymarferwyr, er mwyn deall sut i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn ymarferol a hyfforddi a goruchwylio wedyn er mwyn helpu timau i uwchsgilio.

c teimlai rhai ymatebwyr nad oedd yr hyfforddiant yn rhoi digon o wybodaeth am sut i ddehongli'r meini prawf cymhwystra, a bod angen mwy o eglurder ynghylch materion pwysig fel cynlluniau gofal a chymorth.

ch er bod pobl yn teimlo bod y codau ymarfer a'r deunydd hyfforddiant yn gyffredinol o ansawdd da ac yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf i'r staff, cyfyngedig oedd eu heffaith a'u defnyddioldeb, a hynny gan eu bod yn hwyr yn cael eu cyflwyno. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth fod angen canllawiau mewn da bryd cyn dechrau rhoi'r Ddeddf ar waith, ac nad oedd eu cyhoeddi'n hwyr wedi helpu.

1.10 Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd fod Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, fel Cyngor Gofal Cymru, yn dehongli elfennau o'r ddeddfwriaeth yn wahanol, a bod hynny'n achosi anawsterau wrth wreiddio'r newidiadau ar lawr gwlad. Oherwydd hyn, byddai cyrff cyhoeddus yn croesawu gwell cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Gofal ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan yr awdurdod lleol.

## Cymysg yw barn cyrff cyhoeddus am ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau presennol, ac maent yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â heriau sylweddol wrth roi'r Ddeddf ar waith

1.11 Roedd ein galwad am dystiolaeth yn cynnwys nifer o gwestiynau caeedig am y trefniadau presennol, gyda'r un dewis o ymatebion, er mwyn canfod safon y perfformiad ar hyn o bryd a'r meysydd lle gellid gwella. Roedd y rhain yn cynnwys amrediad a chwmpas y gwasanaethau presennol a pha mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn perfformio yn unol â rhai o'r prif safonau yn y Ddeddf. Mae'r ymatebion a gawsom yn dangos mai cymysg yw'r darlun wrth edrych ar y perfformiad presennol a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau yn y dyfodol.

1.12 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi bod amrediad a lefel y ddarpariaeth bresennol, er ei bod yn ddigonol, yn gofyn am ragor o ddatblygu er mwyn bod yn addas i'w diben ac er mwyn gwireddu'r hyn y mae'r Ddeddf i fod i'w gyflawni. Yn benodol, mae angen gwneud rhagor o waith i helpu defnyddwyr gwasanaethau i fyw mor annibynnol â phosibl, helpu i atal cam-drin ac esgeulustod, a sicrhau bod systemau'n gweithio'n gyflym er mwyn lleihau unrhyw oedi wrth roi cymorth a gofal.

1.13 Wrth edrych ar y dyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i awdurdodau lleol, ar y cyfan teimlai ymatebwyr fod ganddynt eisoes drefniadau digonol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn y meysydd hyn:

- a asesu anghenion oedolion a phlant o ran gofal a chymorth;
- b darparu gofal a chymorth i ateb anghenion plant; ac
- c asesiadau ariannol.

1.14 Teimlai cyrff cyhoeddus fod angen gwneud rhagor o waith yn y meysydd hyn yn bennaf:

- a ateb anghenion cymorth oedolion a phlant sy'n ofalwyr;
- b sicrhau llety digonol i blant sy'n derbyn gofal;
- c cyflwyno mwy o fodelau amrywiol wrth ddarparu gwasanaethau, gan

gynnwys mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y defnyddiwr a'r trydydd sector; a

d sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn helpu i gynllunio'r gwasanaethau y maent yn eu cael ac yn cyfrannu at y modd y caiff y rheini eu darparu.

## Mae cyrff cyhoeddus yn cydnabod y cymorth cadarnhaol sy'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru, ond mae angen gwneud mwy o waith mewn meysydd pwysig er mwyn cyflwyno'r newidiadau diwylliannol y mae eu hangen er mwyn troi'r Ddeddf yn realiti

1.15 Drwyddi draw, roedd cyrff cyhoeddus yn cydnabod y cymorth sy'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wrth ddatblygu'r Ddeddf a'i rhoi ar waith. Er enghraifft, mae'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus yn credu bod y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi yn ddefnyddiol ac yn glir, a dywedodd pawb a ymatebodd bod gwefan Cyngor Gofal Cymru yn ddefnyddiol hefyd. Mae pobl yn teimlo bod y wefan yn adnodd da sy'n hawdd i'w ddefnyddio a hwnnw'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol a hygyrch mewn un man. Fodd bynnag, dywedodd rhai nad yw'r wefan yn cael ei diweddaru mor gyflym ag y byddai cyrff cyhoeddus yn ei hoffi.

1.16 Teimlai ymatebwyr hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor o waith mewn perthynas â'r canlynol:

a datblygu hyfforddiant a gwybodaeth sy'n ymwneud â mentrau cymdeithasol a gwasanaethau ataliol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y rhain yn iawn a'i bod yn glir pa ymrwymiadau y mae eu hangen gan bartneriaid;

b sicrhau bod deddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'r maes wedi'i hintegreiddio'n effeithiol er mwyn sicrhau'r manteision a fwriedir – fel arfer, y cysylltiad â pholisïau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd y peth pwysicaf y mae angen ei gryfhau yn hyn o beth;

c cydnabod bod newid diwylliant wrth roi'r Ddeddf ar waith yn gam sylweddol ac y bydd cyfnod pontio cyn y gwelir y manteision y dymunir eu gweld;

ch byddai rhagor o gymorth ariannol i'w groesawu, yn enwedig er mwyn sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer y swyddi a'r timau newydd y bydd eu hangen i gyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf;

d sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dal i roi arweinyddiaeth er mwyn datblygu polisi a chanllawiau ymarfer ar ôl rhoi pethau ar waith; a

dd chyfathrebu mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth a gwasanaeth sy'n gorfod gweithredu o dan y Ddeddf yn gwneud hynny ac yn cyfrannu – mae nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at gyfathrebu anhrefnus gan Lywodraeth Cymru, wrth i wahanol sefydliadau gael gwahanol negeseuon, ac mae hynny'n cael ei weld fel risg i roi'r Ddeddf ar waith yn iawn.

# Atodiad 1

## Y rhestr ddosbarthu

Dyma’r sefydliadau a gafodd wahoddiad i gyfrannu at yr alwad hon am dystiolaeth:

- Pob un o’r 22 awdurdod lleol
- Pob un o’r saith Bwrdd Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Cawsom ymatebion gan y canlynol:

- 22 awdurdod lleol (yn unigol neu fel rhan o gyflwyniadau gan bartneriaethau rhanbarthol)
- Un Bwrdd Iechyd Lleol

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru